Rhif 194 EBRILL – MAI 2015

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



## Gweddi'r PASG

Crist, creithiog gan glwyfau'r groes,
meiddiwn ddod yn nes atat
yn nhirwedd hunllefus y ffosydd;
pan guddia'r tywyllwch hyd yn oed agen o oleuni
a'r mannau tywyll yn ymddangos mor ddiolau
fel bod gobaith yn anodd ei gynnal;
pan ymddengys nad oes diwedd, na dihangfa,
a'r tywyllwch yn treiddio popeth, meiddiwn ddod yn nes.
Oherwydd ymwelaist â'r lle tywyll hwnnw:
dy Wener a'th Sadwrn a dreuliwyd yno.
Ni wnaeth y tywyllwch, ni allai, orchfygu dy oleuni.
Felly, yn y tirwedd hunllefus,
fe sugna ffydd o'th Wener a'th Sadwrn,
gan ddisgwyl toriad gwawr y Pasg,
er mwyn i ni hefyd godi'n bartneriaid yn dy aberth. Amen.

Gweddi'r Parchedig Peter Barber, cadeirydd Talaith Caer a Stoke-on-Trent, yn 'Partners in Sacrifice', Llawlyfr Gweddi'r Eglwys Fethodistaidd 2014/15. Addaswyd i'r Gymraeg gan Gwyndaf a Hafwen Roberts

# Nefoedd a Daear

Wedi cryn edrych ymlaen a pharatoi, daeth y diwrnod mawr. Ar 19 Ionawr, fe agorodd arddangosfa Nefoedd a Daear yn Wrecsam. Ynddi mae gweithiau celf sy'n perthyn i'r Casgliad Methodistaidd o Gelfyddyd Gyfoes, sef mae'n debyg 'y casgliad enwadol gorau o gelfyddyd gyfoes y tu allan i'r Fatican'. Yn yr agoriad swyddogol yn Oriel Sycharth, cafwyd rhaglen amrywiol a oedd yn cynnwys canu corawl ac anerchiadau yn sôn am sut y gwnaed y trefniadau i'r arddangosfa ddod i Wrecsam.



*Taith dywys gydag Andrew Parry*

Wythnos yn ddiweddarach, cynhaliwyd taith dywys Gymraeg o amgylch yr arddangosfa dan arweiniad Andrew Parry, Pennaeth y Gymraeg a Materion Cymreig, Prifysgol Glyndŵr. Roedd ei wybodaeth o'r gweithiau yn gynhwysfawr a hynod ddiddorol a llwyddodd i dynnu'r ymwelwyr i mewn i fyd y lluniau mewn ffordd real.

Ar ddydd Sadwrn 28 Chwefror cynhaliwyd Llan Llanast dwyieithog yn seiliedig ar rai o'r lluniau, dan arweiniad Luke Curran a Delyth Wyn Davies. Trwy'r digwyddiad hwn cyflwynwyd yr arddangosfa i gynulleidfa newydd yn cynnwys pobl o bob oed a chefndir. Roedd gwahanol weithgareddau i alluogi pobl i ymateb yn greadigol i'r lluniau. Roedd cyfle i fodelu, paentio a chreu collage gan adlewyrchu arddulliau yn ogystal â thestunau'r lluniau. Yna cafodd pawb greu 'person' mewn paratoad at yr Addoliad, yn seiliedig ar y llun 'Y Pum Mil'.

Adroddodd Luke stori bwydo'r pum mil ar ddull Chwarae yng Nghwmni Duw (Godly Play) gyda phawb yn cyfrannu eu 'person' fel cymeriad yn y dorf. Daeth y Llan Llanast i ben yn y ffordd arferol o gael pryd bwyd gyda'n gilydd. Beth gawsom ni ond bara a physgod!

Gan fod yr arddangosfa ymlaen yn ystod y Grawys, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd arbennig i'r tymor hwnnw, sef 'Camau'r Daith'. Fel rhan o'r gyfres cawsom noson fendithiol trwy gyfrwng y Gymraeg, dan arweiniad ein Cadeirydd y Parchedig Jennie Hurd. Y thema y noson honno oedd dicter a buom yn meddwl am ddicter Iesu pan lanhaodd y deml. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar lun Clive Hicks-Jenkins sydd yn portreadu hanes y wraig oedd wedi ei dal mewn godineb. Cawsom ein tywys i addoli'r Crist a'i huniaethodd ei hun â'r wraig druenus, ac sydd yn dwyn ymaith bechodau'r byd.



*Llan Llanast – gweithiau'n sychu*



Diolch i Delyth am weithio mor galed i sicrhau llwyddiant y digwyddiadau hyn.

**Dydd Sadwrn 25 Ebrill 2015 – 2pm – Capel Bathafarn, Rhuthun**

(yn dilyn cyfarfod y Synod yn y bore)

**CYFARFOD AGORED gyda'r Dr Daleep Mukarji**

Cyn-gyfarwyddwr Cymorth Cristnogol ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd 2013-14. Pwnc: "Synod Cymru–Cenhadaeth a Dyfodol" Anerchiad gan Dr Mukarji, yn tynnu ar ei brofiad eang o ddiwylliannau amrywiol a'n Cyfundeb i gyd, ynghyd â chyfle am sgwrs.



**CROESO I BAWB**

CYMDEITHAS HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD

## PERERINDOD 2015

**PNAWN SADWRN, MAI 16eg, 2015**

COFIO JOHN EVANS EGLWYSBACH, 1840 – 1897

Dyma gyfle i ymweld ag Eglwysbach, Dyffryn Conwy, lle y ganwyd ac y magwyd un o bregethwyr mwyaf Cymru erioed, y Parchedig John Evans. Bydd cyfarfod arbennig i'w gofio yng **Nghapel Ebeneser Eglwysbach.**

*Siaradwr gwadd:*
Dr R.TELFRYN PRITCHARD

**Ymgynnull wrth Gapel Ebeneser, Eglwsbach am 12-00 o'r gloch.**

Dewch â bwyd gyda chi a bydd paned wedi'i pharatoi ar eich cyfer. Os ydych yn trefnu bws, cofiwch mai bws mini yn unig fydd yn addas. Ar ddiwedd y daith bydd bwyd wedi ei drefnu am bris rhesymol. **Cysylltwch ar frys os na wnaethoch eisoes, â'r trefnydd, sef:**
Robin Jones, Rhif Ffôn **01248 670140**
neu drwy e-bost:
**robinbethel@tiscali.co.uk.**

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 193**
**EBRILL – MAI 2015**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***


**ROBIN JONES**
LLYS ALAW
18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 4 MAI, 2015**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru**"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


## Merched Methodistaidd ym Mhrydain

Cynhelir cyfarfod yn
**Salem, Porthmadog**

Dydd Sadwrn, 11 Ebrill, 2015
2.30 pm

*Siaradwr:* **Llinos Roberts**
(gweithiwr gyda Chymorth Cristnogol)

Llun y clawr gan Glyn Davies, ffoto-arlunydd, Porthaethwy

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Pasg Hapus! Fel y dywed cyfarchiad bore'r Pasg:
"Halelwia! Atgyfododd Crist! Atgyfododd yn wir! Halelwia!"

Ar ôl difrifoldeb y Grawys, mae'n dda dathlu. Mae ein haddoliad yn llawen ac mae emynau'r Pasg yn llawn golau a lliw. Ond un o fy hoff emynau Saesneg adeg y Pasg yw 'Now the green blade rises' (*Singing the Faith* 306). Mae'n cael ei ganu i alaw Ffrengig o'r enw 'Noel Nouvelet' (*Caneuon Ffydd* 702). Mae'r penillion yn defnyddio'r ddelwedd o Efengyl Ioan (12:24) lle mae Iesu'n sôn amdano ei hun fel gronyn gwenith, ac am y modd y mae'n rhaid i ronyn gwenith farw (sef, newid) yn y tir er mwyn cael cnwd. Allan o farwolaeth Iesu, mae bywyd newydd yn dod. Ond heb farwolaeth - diwedd Iesu fel yr oedd ar y ddaear hon; diwedd gronyn gwenith unigol - does dim siawns o fywyd newydd helaethach.

Mae hynny yn cyfleu llawenydd y Pasg mewn ffordd annisgwyl, efallai. Yn wir, dydy hunanaberth fel hyn ddim yn gwneud synnwyr yn ôl gwerthoedd y byd. Ond mae'n amlwg i bob ffermwr a garddwr. Ar ôl gaeaf hir o ddisgwyl am y gwanwyn, mae 'na lawenydd a gobaith pan ddaw'r egin i'r golwg, yn addo cynhaeaf. Ac fe ddylai wneud synnwyr i Gristnogion hefyd. Pobl y Pasg ydym ni, a dylem ddisgwyl gweld egin bach gwyrdd sef gobaith a chariad yn ein bywydau, yn yr eglwys ac yn y byd o'n cwmpas. Pam? Oherwydd fe atgyfododd Crist! Oherwydd ei farwolaeth a'i atgyfodiad, mae 'na fywyd newydd, cariad a gobaith i bawb.

Dwi wedi bod yn ystyried ble mae egin bach bywyd a gobaith i'w gweld ymhlith pobl y Pasg yn Synod Cymru. Wel, mae un yn eich dwylo chi! Mae ansawdd yr erthyglau a'r gobaith sydd yn adroddiadau 'Capel Ni' yn fy llawenhau. Dwi'n ceisio rhannu'r gobaith trwy basio copïau sbâr ymlaen i'm cydweithwyr ecwmenaidd a chyfundebol. Hoffwn eich annog chithau i wneud yr un peth trwy rannu'r *Gwyliedydd* efo'ch ffrindiau a'ch cymdogion.

Arwydd arall o obaith a bywyd newydd yn ein plith yw gwefan Synod Cymru (www.synodcymru.org.uk). Daw ymwelwyr i'n gwefan o lefydd ar draws y byd - hyd yn oed o Gymru! Mae'r wefan yn cynnwys newyddion, gwybodaeth, dyddiadur y Synod, adran hanes, a llawer mwy. Eginyn bach gwyrdd unwaith eto, dwi'n credu.

Mae'r ymateb drwy'r holl Synod i'n penderfyniad y llynedd i 'Ddatblygu Ein Galwad' gan ganolbwyntio ar bedair thema 'Ein Galwad' yr Eglwys Fethodistaidd yn eginyn bach o obaith. Efallai ei fod yn fregus o hyd, ond mae rhai capeli ac Ardaloedd yn ystyried beth i'w wneud o dan thema 'Dysgu a Datblygu' eleni. Mae Pwyllgor Polisi'r Synod wedi cytuno ei bod yn werth parhau â hyn a bydd cyfarfod Synod y Gwanwyn yn dewis thema 2015-16. Arwydd o obaith yn wir yw nad ydym yn rhoi'r gorau i 'Ddatblygu Ein Galwad'.

Mae ein gwaith efo plant a phobl ifanc yn llawn gobaith, bob amser. Er nad oes llawer o blant yn y capeli, mae ymroddiad y rhai sy'n gweithio gyda nhw yn rhoi gobaith i ni i gyd. Mae rhai aelodau hefyd yn gweithio gydag 'Agor y Llyfr' (www.openthebook.net) i fynd â storïau'r Beibl i blant ysgolion lleol. Fis Tachwedd diwethaf, aeth dau o bobl ifanc Synod Cymru i 3Generate, digwyddiad ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd ac mae rhai eisiau mynd eleni hefyd. Heb sôn am 'Y Sleepover Mawr' a ddigwyddodd efo Wales Synod yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, ym mis Chwefror! Unwaith eto, mae'r egin bach gwyrdd yn dechrau tyfu a chynnig gobaith.

Bob tro y bydd capel yn gofyn i Ymddiriedolwyr y Synod am grant i helpu efo atgyweirio neu ddatblygu'r adeilad; bob tro y mae rhywun yn gofyn am hyfforddi fel Pregethwr Cynorthwyol neu ymgeisio ar gyfer y weinidogaeth; bob tro y mae capel yn gweithio neu'n addoli yn ecwmenaidd efo Cristnogion o enwadau eraill, dyna eginyn bach gwyrdd arall. Dydw i ddim wedi sôn am y cant a mil o gymwynasau y mae pobl yn eu gwneud bob dydd heb feddwl, dim ond am eu bod yn dilyn Iesu Grist. O eginyn i eginyn, mae teyrnas Dduw yn dod. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd lle mae capeli yn ystyried dod â'r achos i ben, mae egin bach newydd yn gallu tyfu. Pobl y Pasg ydym ni ac mae bywyd yn dilyn marwolaeth. Efo Duw, nid oes yr un sefyllfa heb obaith. Atgyfododd Crist!

Mwynhewch lawenydd y tymor. Boed i'r Pasg eich ysbrydoli i chwilio am egin bach gwyrdd gobaith. Diolch i Dduw, maen nhw yno!

# mab y mans

## GARETH BLAINEY

Mab y diweddar Barchedig Erfyl Blainey a Mrs Mari Blainey yw Gareth. Erbyn hyn mae'n byw ym Mhontypridd ac mae'n adnabyddus fel sylwebydd pêl-droed a gohebydd chwaraeon ar BBC Radio Cymru. Rydym yn ddiolchgar iawn i Gareth am rannu rhai o'i atgofion â ni.

Dau fans fu'n gartrefi i mi yn ystod fy mhlentyndod a go brin y gallai'r ddau fod mewn llefydd mwy gwahanol i'w gilydd. Roedd y mans cyntaf yn Wembley yng Ngogledd-orllewin Llundain, filltir yn unig o'r stadiwm pêl-droed enwog. Ces fy magu yno ar ôl i mi gael fy ngeni yn Kingsbury, dair milltir o Wembley, ac es i yn ôl yno ddwy flynedd yn ôl er mwyn cael lluniau ohonof y tu allan i'r tŷ ar gyfer fy llyfr "O Wembley I Wembley". Roeddwn i'n byw yno oherwydd bod fy niweddar dad, y Parchedig Erfyl Blainey, yn weinidog capel Chiltern Street, sydd oddi ar un o strydoedd enwocaf Llundain, Baker Street, a'm diweddar fam Mari oedd prifathrawes Ysgol Gymraeg Llundain yn Willesden Green. I'r ysgol honno yr es i yn bedair oed, felly rhwng yr aelwyd, yr ysgol a'r capel roeddwn i'n byw y rhan fwyaf o'm bywyd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Cofiwch chi, doedd yr un o'm ffrindiau ysgol yn byw yn Wembley felly Sais a oedd yn byw ar draws y ffordd imi oedd un o'm ffrindiau gorau a dau deulu o Iddewon oedd ein cymdogion ni ar y ddwy ochr. Dysgais yn ifanc iawn eu bod nhw'n 'cadw'r Saboth' ar ddydd Sadwrn yn hytrach na'r Sul ac nad oedden nhw'n dathlu'r Nadolig yr un fath â fi. Un flwyddyn wrth i mi helpu i dynnu'r addurniadau oddi ar ein coeden Nadolig oedd yn cynnwys siocledi awgrymodd Mam y dylswn gynnig y siocledi i'r ddwy ferch fach oedd yn byw y drws nesaf i ni, Sandra a Belinda Fox. Rhedais allan o'r tŷ a gwaeddais: "Sandra, Belinda, I've got something to put to you". Dyna fy nghyfieithiad i o 'mae gen i rywbeth i'w roi i chi': mae'n amlwg nad oedd llawer o lewyrch ar fy Saesneg er gwaethaf ardal fy magwraeth! O ran y capel, rydw i'n cofio'n iawn cymaint o fwrlwm oedd yno ac nid ar y Sul yn unig. Bob nos Wener roedd pobl ifainc yn cyfarfod yn festri'r capel i gymdeithasu dros baned a gêm o dennis bwrdd ac yn aml iawn roedd tua hanner cant o Gymry Cymraeg oedd naill ai'n gweithio neu'n fyfyrwyr yn Llundain yn llenwi'r festri. Mae hi'n braf dweud fy mod i'n dal mewn cysylltiad â rhai ohonyn nhw a symudodd yn ôl i Gymru wrth dyfu'n hŷn.

A sôn am symud yn ôl i Gymru, dyna wnes i a'm rhieni pan oeddwn i'n saith



oed. Derbyniodd fy nhad wahoddiad i fod yn weinidog capel Bethel ym mhentref Llanfairfechan a chapeli eraill yn yr ardal. Gan mai pentref bach ar arfordir Gogledd Cymru yw Llanfairfechan, roedd symud yno o ddinas fawr yn agoriad llygad i blentyn oedd wedi arfer mynd i'r ysgol a'r capel yn Llundain naill ai mewn car neu ar drên tanddaearol y 'Tube'. Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol nes i mi ddechrau teithio ar fws i'r ysgol uwchradd ym Mangor ac roedd y mans y drws nesaf i'r capel – oedd yn help wrth i mi godi'n hwyrach ar foreau Sul ar ôl cyrraedd f'arddegau!

Dros gyfnod o un mlynedd ar ddeg, tan i mi fynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd (a nes i'm rhieni symud i Gaernarfon) bues i'n cymryd rhan mewn gwasanaethau, yn athro Ysgol Sul ac yn canu'r organ. Hen harmoniwm oedd yr organ honno pan ddechreuais i gyfeilio mewn oedfaon ac roedd rhaid gwthio'r pedalau'n galed er mwyn sicrhau ei bod hi'n gweithio'n iawn. Roeddwn i'n falch felly pan brynwyd organ newydd drydan oedd yn cynhyrchu sain gwell o lawer nag oedd yr harmoniwm - ar un amod. Wrth droi'r offeryn ymlaen roedd rhaid gwthio switsh metel ac aros am ryw ddeg eiliad cyn dechrau cyffwrdd nodau'r organ. Un bore Sul roedd fy meddwl wedi dechrau crwydro wrth i'r pregethwr gyhoeddi'r emyn. Yn fy mrys, tynnais fy mys oddi ar y switsh yn rhy gynnar a daeth sain annaearol o grombil yr offeryn pan osodais fy mysedd ar yr allweddellau. Doedd dim amdani ond ymddiheuro'n gyhoeddus i'r gynulleidfa, diffodd yr organ ac ail-ddechrau'r emyn! Dyna'r profiad gwaethaf ges i yn y capel yn Llanfairfechan ond gallwn i'n hawdd fod wedi teimlo'n fwy annifyr fyth ar adeg arall. Ar ôl i mi ddod yn agos at dorri un o ffenestri Bethel wrth gicio pêl nifer o weithiau, un nos Sadwrn torrais un o ffenestri'r capel gyda charreg. Ceisio profi i mi fy hun oeddwn i y gallwn daflu carreg fuasai'n taro top to'r capel cyn llithro i'r gwter ar ochr y to, ond anelais yn llawer rhy isel. Fel roedd lwc llwyddodd fy rhieni - oedd wedi gwylltio'n gacwn - i gael gafael ar ddyn i osod paen o wydr newydd cyn oedfa'r bore canlynol, ond yn anffodus ar ddiwedd yr oedfa honno daeth dynes oedd yn aelod blaenllaw o hyd i un darn bach o wydr o dan ei sedd a holodd y diweddar Wil Owen, oedd yn gofalu am y capel, beth oedd wedi digwydd. Dywedodd o ei fod o wedi gollwng fâs o flodau a chymryd y bai yn fy lle i!

Gwenu a gwerthfawrogi fydda i wrth edrych yn ôl ar fy mhrofiadau yn 'fab y mans' yng nghapeli Bethel a Chiltern Street ac mae'n drist nodi fod yr achos wedi dod i ben yn y ddau le. Erbyn hyn rydw i'n aelod yng nghapel Minny Street yng Nghaerdydd sy'n gapel yr Annibynwyr. Annibynwraig yw fy ngwraig Delyth a Dad weinyddodd yn ein priodas yn Minny Street. Ei farn oleuedig o, yn fy marn i, oedd mai teimlo'n gartrefol mewn capel oedd y flaenoriaeth yn hytrach nag enwad. Yno y cafodd fy mab Huw ei fedyddio ac mae yntau'n aelod. Bydda i'n canu'r organ yn Minny Street bob hyn a hyn, a bydda i wastad yn gwneud yn siŵr fod y trydan yn gweithio'n iawn cyn cyffwrdd y nodau….

Roedd bedydd i fod yn Nhregybi
ond anghofiodd y fam ddod â'r babi.
Ac felly, am adra
aeth y neinia a'r teidia
mewn siom ar ôl profiad mor shabi.

Roedd y plant yn sêt fawr wedi'u
gwasgu
A gwreichion y bregeth yn tasgu,
Ond cafodd pawb sioc
Pan ddisgynnodd y cloc
'nenwedig y rhai oedd yn cysgu! – *RJ*

# Lleufer dyn yw llyfr da

gan Dewi Rhys



Ers yn blentyn fy nymuniad oedd gweithio mewn llyfrgell. Nid yw'r awydd yna wedi pylu o gwbl bron i hanner can mlynedd yn ddiweddarach, ac mi fyddaf yn edrych ar hysbysebion swyddi yn y papurau lleol yn aml a dychmygu cyflawni fy uchelgais ryw ddydd.

Yng Nghaernarfon 'ma 'slawer dydd roedd Llyfrgell y Dref yn adeilad mawr i blentyn, ond yn adeilad y cefais bleser mawr yn ei fynychu. Bob bore Sadwrn byddai fy nhad yn mynd â mi yno, a thra roeddwn i yn dewis llyfrau i'w darllen, byddai ef yn sgwrsio â'r llyfrgellydd yn ei swyddfa.

Yma yn Llyfrgell y Dref y dysgais enw prifddinas pob gwlad yn y byd drwy dwrio drwy Atlas anferth yn yr ystafell llyfrau cadw. Yma hefyd y byddwn yn astudio geiriau Cymraeg a Saesneg ar gyfer y prawf sillafu wythnosol yn yr ysgol gynradd.

Arferwn fod mor falch o'r ddau docyn llwyd, oedd yn golygu benthyca dau lyfr am bythefnos, ac yn agor drysau i wahanol brofiadau darllen. Fedra i ddim diolch digon am yr anogaeth a gefais i ddarllen. Hyd heddiw mi ddarllenaf unrhyw beth dan haul, o lyfrau swmpus i bamffledi, waeth beth fo'r pwnc.

Bob pnawn Gwener yn yr ysgol gynradd, byddai'r athrawes yn trawsffurfio'r ystafell ddosbarth i greu llyfrgell fechan. Dyna pryd y cawn i gyfle i fod yn llyfrgellydd dros dro, gan farcio tocynnau fy nghyd-ddisgyblion a rhoi stamp dyddiad ar y llyfr i'w hatgoffa i ddod â'r llyfr yn ôl yr wythnos ganlynol.

Wedi cyrraedd yr ysgol uwchradd byddai cyfle i ymuno â Llyfrgell y Sir a oedd yn digwydd bod yng Nghaernarfon. Llyfrgell mwy o faint, wrth reswm, gyda mwy o lyfrau. Ar ein pennau ein hunain y byddem yn ymweld â'r fan hyn; a dyna sylweddoli fod rhai, fel fi, yn hoff o fynd i'r llyfrgell, a rhai heb ddiddordeb i ddarllen dim mwy nag oedd rhaid.

Mi roedd yna glamp o lyfrgell yn yr ysgol uwchradd hefyd, ac yn ystod blynyddoedd y chweched roedd cyfle i wirfoddoli am swydd yn y llyfrgell yn ystod yr awr ginio ac ar ôl yr ysgol - roeddwn wrth fy modd, mi ellwch fentro!


Y dyddiau hyn mae'r llyfrgelloedd wedi gweld newidiadau mawr gan fod cyfrifiaduron, CDs ac ati ar gael yno; mae yno adrannau arbennig i'r plant lleiaf a daw storïwyr i mewn i ddweud stori wrthynt. Ffarwel i'r hen reol o ddistawrwydd a sibrwd a'r gwaharddiad ar fwyd a diod yn y llyfrgell. Erbyn hyn bydd teuluoedd yn cael cyngerdd a phicnic yn y llyfrgell leol!

Gobeithio'n wir y bydd y newidiadau hyn yn atal rhai o'n llyfrgelloedd rhag cau. Mae'r llyfrgell dan fygythiad mewn sawl man. E-lyfrau ac Amazon sy'n arwain y gad ym maes llyfrau heddiw. Gwelwn siopau llyfrau annibynnol yn cau, megis Palas Print ym Mangor yn ddiweddar (er bod Palas Print Caernarfon yn ffynnu). Anhygoel nad oes cefnogaeth i siop lyfrau mewn dinas prifysgol. Ni allwn laesu dwylo: yn ôl y sôn mae dwy siop lyfrau wedi cau ym Mhrydain bob wythnos yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Er tegwch, mae'r siopau annibynnol yn brwydro'n ôl gan gynnig gwasanaethau ychwanegol, megis coffi, te a theisen i'r cwsmeriaid eu mwynhau tra byddant yn eistedd mewn cadeiriau lledr cyfforddus. Hefyd bydd ambell siop yn rhoi arddangosfa arlunio ar y waliau ac yn aros ar agor tan yn hwyr y nos, sy'n gyfle i wahodd awduron i ddod yno ac i'r cwsmeriaid glywed darlleniadau.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi yw ymweld â Gŵyl Caeredin yn yr haf ac yno mae gŵyl lyfrau anferth yn cael ei chynnal, gyda gwesteion ac awduron rhyngwladol yn cymryd rhan. Gwych! Hoffwn geisio cynllunio rhywbeth tebyg yma yng Nghymru yn y dyfodol - ond efallai erbyn hynny y byddaf wedi gwireddu fy mreuddwyd ac y cewch fy ngweld y tu ôl i ddesg mewn rhyw lyfrgell yn rhywle…!

## Er cof annwyl am Albert Jones



Trist yw cofnodi marwolaeth Albert Jones ar y 7fed o Ionawr, 2015 yn dawel yn ei gartref, yng nghwmni ei deulu. Ganwyd Albert yn Lerpwl lle roedd ei dad wedi symud i weithio. Bu yno am chwe blynedd ac yna symudodd y teulu yn ôl i Gymru, i Lanrug. Ef oedd yr hynaf o bump o blant – y lleill oedd Doris, fu farw yn ferch ifanc, Blodwen, Betty ac Eion. Aeth Albert i weithio yn chwarel Llanberis pan oedd yn bedair ar ddeg oed a bu yno hyd iddo ymuno â'r fyddin ar ddechrau'r ail ryfel byd. Tra yn Dover, cyfarfu a Lilian, a fu'n briod iddo hyd ei farwolaeth, dros ddeg a thrigain o flynyddoedd. Wedi'r rhyfel daeth Albert a'i briod yn ôl i fyw i Gymru, a dychwelodd i'r chwarel. Yno y bu hyd i'w dad ei ddenu i weithio gydag ef fel glanhawr simneiau. Parhaodd yn y swydd yma nes iddo ymddeol. Roedd wedi symud i fyw i Gaeathro erbyn hyn.

Roedd Albert yn aelod ffyddlon yng nghapel Ebeneser, Caernarfon, a dechreuodd gael blas ar fod yn bregethwr cynorthwyol. Yn 1999 symudodd Albert a Lil i Lanrwst i fyw gyda'u merch Marcia a'i gŵr Peter. Tra yn Llanrwst, roedd yn parhau i bregethu ac roedd yn hynod o falch pan ofynnodd y Parchedig Roger Roberts iddo gymryd gofal o gapeli Ebeneser Eglwysbach, Soar Maenan a Phenmachno. Yn wir, ei ddyhead pan oedd yn hogyn ifanc oedd bod yn weinidog. Byddai'n gorfodi ei chwiorydd i eistedd o'i flaen tra roedd o'n sefyll tu ôl i'w "bulpud", sef bocs pren, ac yn darllen ei Feibl iddynt.

Bydd ei deulu i gyd, sef ei ferch Marcia a'i fab Trefor, ei fab yng nghyfraith Peter, ei ferch yng nghyfraith Gwenfys, ei wyrion Chris, Jason a Dylan, ei wyres Nia a'i ddeg o or-wyrion a wyresau yn gweld ei golli yn fawr iawn. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Horeb Llanrwst o dan arweiniad ei weinidog y Parchedig Philip Barnett. Yr organydd oedd Mrs Eira Jones.

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Rehoboth, Llanbedrog

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw W. Thomas Williams, 'Wil Bryn Bugail', yn 87 oed. Roedd yn ŵr cyfeillgar a charedig a bu'n ffyddlon fel aelod a swyddog yn Rehoboth am lawer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Helen, ei weddw; Carys ac Iwan ei gŵr; a Dafydd ac Elen ei ŵyr a'i wyres. Dyma ran o deyrnged Carys i'w thad:

"Ganwyd fy nhad yn Nhan y Foel, Mynytho, cyn i'r teulu symud i Fryn Bugail yn yr un pentref. Ar ôl gadael yr ysgol yn bymtheg oed bu'n brentis saer coed gyda John Griffith, adeiladwr lleol. Difyr fyddai gwrando ar 'nhad yn adrodd straeon am Lanbedrog ym mhedwardegau a phumdegau'r ganrif o'r blaen. Yna mentrodd fy nhad i fusnes ei hun a thua'r un adeg cyfarfu â fy mam; cawsant hanner canrif o fywyd priodasol dedwydd. Cyfnod hapus iawn fu fy mhlentyndod innau a Dewi fy mrawd bach. Roedd bywyd y teulu'n troi o amgylch y capel a'r gymuned glòs. Cawsom ergyd fawr yn haf 1976 pan gymerwyd Dewi oddi wrthym yn naw oed, yn dilyn wythnosau o gystudd trwm. Gweithiodd fy nhad yn galed; prentisiodd eraill; a bu'n gymeradwy a thrylwyr fel ymgymerwr angladdau. Gwelir ôl ei law grefftus ar sawl adeilad ledled Llŷn ... Dyn tawel oedd 'nhad, ffeind iawn, yn annwyl, dymunol, bonheddig a chroesawgar. Braint oedd cael ei adnabod."

*Gohebydd – W. Arvon Roberts*

## Seion, Pwllheli

**ADNEWYDDU'R CYFAMOD**
Ein gweinidog y Parchedig Gwyn C. Thomas oedd yn ein harwain yn y gwasanaeth ac yn gweinyddu'r Cymun. Dr Osian Ellis oedd yn cyfeilio ar yr organ.

**CROESO'N ÔL**
Braf cael cwmni Mrs Megan Jones, Pensarn, unwaith eto yn y capel, wedi iddi fod yn yr ysbyty am gyfnod.

**CYFARFODYDD UNDEBOL**
Cawsom oedfaon undebol yn Ionawr pan gymerwyd rhan gan aelodau o wahanol eglwysi Pwllheli. Trefnwyd oedfa yn Seion gan Miss Valerie Williams. Cafwyd darlleniad gan Miss Gwyneth Evans a chyfraniadau gan aelodau Penlan a'r Drindod.

*Gohebydd – Elizabeth Owen*

## Ardal Llanrhaeadr

**ER COF AM EDWARD DAVID WILLIAMS, LLANARMON DYFFRYN CEIRIOG (1911 - 2015)**



Cafodd E D Williams oes faith, lawn bendithion. Cafodd fyw i fod yn 103 mlwydd oed. Roedd yn ddiolchgar am bob bendith a dderbyniodd gan ei deulu; pob llawenydd o gael byw yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog; a phob cyfle a gafodd yntau i wasanaethu eraill. Mwynhaodd gael cyfeilio yng Nghapel Tabernacl er pan oedd yn 12 mlwydd oed ac yn Eglwys Sant Garmon o 1957 hyd nes yr oedd yn gant oed (cyfeilio o'i gof yn ystod y blynyddoedd olaf oherwydd ei fod bron yn ddall). Yn 2012 dyfarnwyd iddo Fedal Archesgob Cymru am ei gyfraniad i gerddoriaeth gysegredig. Cofiwn ninnau'n awr yn annwyl iawn amdano.

**Buodd fyw er mwyn eraill,**
**Heb fynd yn hen;**
**A byw i rannu**
**Ei gariad a'i wên.**
*gan Robin Gwyndaf*

## Ardal Bathafarn

**Y GYMDEITHAS**
Daeth yr arlunydd talentog Dei Nilig atom i ddangos ei waith. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn arlunio pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Brynhyfryd, o dan gyfarwyddyd Bernard Woolford, yr athro arlunio.

**GWASANAETHAU**
Cafwyd Gwasanaeth Cymun dan ofal y Parchedig Martin Evans-Jones ac yntau hefyd a drefnodd wasanaeth Cytûn tref Rhuthun yn Eglwys Sant Pedr. Cymerwyd rhan gan Elizabeth ac Olwen, yn cynrychioli Bathafarn. Braf oedd gweld cynulliad da wedi dod ynghyd ar fore rhewllyd o fis Ionawr pan gawsom neges arbennig gan y Chwaer Eluned Williams, Dolgellau. Daeth criw da at ei gilydd hefyd i Gyfarfod Dechrau Blwyddyn ym Methania. Arweiniwyd y gweithgareddau gan Stephen Edwards, Bethania. Diolch hefyd i'r Parchedig Robin Fox am ei wasanaeth, ac i Meta a Rhian am gyfeilio.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at deulu Wern Ddu ar farwolaeth Wynn Jones, gynt o Henblas, Llangwm. Hefyd at Olwen Griffiths, hithau wedi colli brawd; at Beryl a Iolo Evans a gollodd fodryb sef Laura Evans, Cysgod y Gaer, Corwen; a Glenys Hughes a gollodd gefnder sef Roland Jones, Pentrecelyn gynt, cyn-Brifathro Ysgol y Creuddyn. Meddwl amdanoch i gyd yn eich hiraeth am anwyliaid.

**DYMUNIADAU GORAU**
Cofion anwylaf at y rhai sydd mewn gwaeledd a dymuniadau gorau i Rhodri am wellhad buan yn dilyn yr anffawd a gafodd yn ddiweddar.

**TE GŴYL DEWI**
Cynhaliwyd te er mwyn codi arian at gostau peintio festri Bathafarn.

**NEWID AELWYD**
Pob bendith i Enid a Hywel Edwards yn eu cartref newydd ym Maerdy ger Corwen – Enid yn symud yn ôl i ardal ei magwraeth.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Pendref, Dinbych

**ADDOLI**
Parhawn i addoli yn y Festri Fawr ar ei newydd wedd. Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Ionawr a Chwefror. Arweiniwyd oedfa gyntaf y flwyddyn newydd gan ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands. Ar yr ail ddydd Sul adnewyddwyd y cyfamod dan arweiniad y Parchedig Tom Williams. Buom hefyd yn cyd-addoli, ym Mheniel Llanelwy o dan arweiniad y Parchedig Glyn Thomas ac yna ym Mhendref pan gawsom gyfle i groesawu atom gadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Mwynhawyd paned a sgwrs ar derfyn yr oedfa.

Diolch hefyd am oedfaon bendithiol ym mis Chwefror dan arweiniad y Parchedig Cledwyn Parry, Royce Warner

a'r Parchedig Tudur Rowlands. Cymerwyd rhan mewn cyfarfod gweddi gan Rhiannon Rogers, Hywel Evans, Medwyn Jones a Geraint Roberts.

**LLONGYFARCHION**
Llongyfarchiadau i Margaret Sellers ar ddod yn nain i Owain Gwilym, mab bach Sioned a Rhodri a brawd bach i Nel. Llongyfarchiadau hefyd i Lowri a Jorge ar eu dyweddïad. Mae Lowri yn ferch i Elfed a Janet Evans, Garej y Ffowndri.

**AELOD NEWYDD**
Ar y Sul olaf ym mis Chwefror croesawodd ein gweinidog aelod newydd i'n plith, sef Mrs Ceri Ellis, Llys Clwyd, Parc Myddleton. Croeso cynnes iawn atom, Ceri!

*Gohebyddion: Mary Jones*
*a Rhiannon Rogers*

## Ardal Glannau Maelor

**ER COF ANNWYL**

***JUNE MAVIS WILLIAMS***
Byddwn yn cofio'n hir am Mavis, gwraig hawddgar a pharod ei chymwynas, ac am ei gwên siriol drwy bob amgylchiadau. Daliodd ati drwy bopeth, gan ddiolch am gymorth anwyliaid a chyfeillion. Roedd Mavis yn berchen ar lais swynol ac fe'i defnyddiodd ar ddechrau pob gwasanaeth fel pregethwr lleyg, yn ogystal ag fel cefnogwr brwd i dîm pêl-droed Wrecsam! Hi hefyd oedd arweinydd y gân yn Ebeneser, Treuddyn. Cydweithiodd yn hapus â Mrs Maryl Rees, Lloc, i oruchwylio'r Gylchdaith neu'r Ardal erbyn hyn. Diolchwn am ffyddlondeb Mavis ac am ei bod yn awr yng nghwmni'r saint, ymhlith y dorf ddi-ri.


***ANNE ELIZABETH AUDREY BREEZE***
Pan ddeuthum i'r Wyddgrug ym mis Medi 1966, George Breeze oedd Arolygwr Cylchdaith yr Wyddgrug a finnau yn ail weinidog. Daeth y ddau deulu yn gyfeillion da. Audrey oedd unig blentyn y Parchedig George Edward Breeze, Ffynnongroyw, a Mabel Breeze, (Roberts gynt) o Waenysgor. Arhosodd Audrey gyda'i rhieni drwy gydol eu hoes, gan gynorthwyo ei mam ers yn ferch ifanc gyda dyletswyddau cadw tŷ a derbyn llif cyson o ymwelwyr oherwydd gweinidogaeth ei thad. Gwnaeth Audrey lawer o ffrindiau: disgleiriai ei phersonoliaeth gyfeillgar a byrlymus. Wrth i iechyd ei mam ddechrau gwaethygu, cymerodd Audrey gyfrifoldeb cynyddol a gofalodd am ei dau riant nes marwolaeth ei mam yn 1997; parhaodd i ofalu am ei thad tan ei farwolaeth ef yn 2002, yn fuan iawn cyn ei ben-blwydd yn 98 oed.

Symudodd Audrey wedyn i Lys Eleanor yn Shotton, cyfleuster wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac am ychydig o flynyddoedd, cafodd fwynhau rhywfaint o annibyniaeth mewn amgylchedd diogel. Cafodd bleser mewn dosbarthiadau arlunio, trefnu blodau a chyfrifiaduron yng Ngholeg Llaneurgain, lle gwnaeth nifer o ffrindiau eto. Wedi i'w hiechyd waethygu, symudodd Audrey i'r cyfleuster yn Llangollen lle gofalwyd amdani gan staff amyneddgar a chariadus tan ei marwolaeth ar 15 Ionawr eleni, yn 77 oed.

Erbyn hyn, mae Audrey mewn heddwch yn ei bresenoldeb Ef, ffynhonnell pob cysur. Diolch am y fraint o'i hadnabod.

*Gan y Parchedig John Bryn Jones*

***COFIWN HEFYD AM UN ARALL O BLANT EIN GWEINIDOGION***
Ar y 5ed o Ionawr 2015, yng Nghartref Gofal Heartlands, Yr Amwythig, bu farw Barbara Hughes, merch y diweddar Barchedig a Mrs A. Percival Hughes, mam annwyl Aled a chwaer ffyddlon Evelyn ac Eleri. Cydymdeimlwn yn fawr â chi yn eich profedigaeth. *Gol.*



## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**GWELLHAD**
Pob dymuniad da a gwellhad buan i'n gweinidog y Parchedig Philip Barnett.

**DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD**
Cynhaliwyd ein cyfarfod eleni yn Eglwys Pensarn. Thema'r gwasanaeth oedd "A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi". Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol y Bahamas. Cymerwyd rhan gan chwiorydd eglwysi Pensarn, Preswylfa a Chapel Coffa. Cyfeiliwyd gan Mrs Jane Jones.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag Islwyn Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli cefnder yn yr Wyddgrug.

**LLONGYFARCHION**
Llongyfarchiadau i Eirian Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Fawrth 19. Cyfarchion gan y genod a'u teuluoedd.

*Gohebyddion – Eirian a Llinos*

## Shiloh, Tregarth

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i'n gweinidog, y Parchedig Philip Barnett, a gafodd lawdriniaeth ddechrau mis Chwefror. Anfonwn ein cofion ato fel eglwys ac fel ardal, gan obeithio y caiff gyfle i wella ac ychydig o seibiant cyn dychwelyd i arwain gwasanaethau.

**TREFOR MEREDITH OWEN**
Ddydd Gwener, 6 Chwefror, cawsom y newyddion trist am farwolaeth Trefor Owen wedi gwaeledd byr. Cyn ymddeol a dod i fyw i Dregarth, bu Trefor yn Guradur Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Roedd yn arbenigwr ar lên gwerin llawer iawn o wledydd yn ogystal â llên gwerin Cymru. Wedi marwolaeth ei briod, Gwen, brwydrodd Trefor yn galed i barhau i fynychu'r oedfa yn Shiloh hyd y diwedd. Bydd bwlch mawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchedigion Gwyn Thomas, Gwynfor Williams a Harri Parri, ynghyd â'r Parchedig Alwyn Roberts a roddodd deyrnged i Trefor. Yr organydd oedd D. Wynn Williams a threfnwyd y blodau gan Anwen Griffiths, Shiloh.

**CEFNOGI'R BANC BWYD**
Wedi inni ddefnyddio llyfryn 'Byw Ben i Waered' ar gyfer myfyrdod dan arweiniad ein gweinidog, penderfynodd aelodau Shiloh osod Bocs Banc Bwyd yn y cyntedd er mwyn helpu pobl sydd mewn trafferth. Diolch i bawb am eu cyfraniadau wrth inni lenwi'r blwch.

**DYDD GŴYL DEWI**
Cawsom ddathliad arbennig ym Methesda eleni, gyda gorymdaith a chyngerdd. Cymerodd Ysgol Sul Shiloh ran yn y cyngerdd a chanu'n swynol dros ben, gyda Christine Morris Jones yn cyfeilio. Cafwyd cyfle hefyd i ddangos baner newydd yr Ysgol Sul, sydd yn werth ei gweld.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Yn y flwyddyn 325 O.C., fe gynhaliwyd y gynhadledd ecwmenaidd gyntaf yn hanes yr Eglwys Gristnogol yn Nicea, tref yn nhalaith Bithynia sef gogledd-orllewin Twrci ein dyddiau ni. Anfonwyd gwahoddiad, neu orchymyn medd rhai, gan yr Ymerawdwr Cystennin i arweinyddion eglwysi o Sbaen i Persia, o ogledd Affrica i ogledd Ffrainc ac o'r Aifft, Syria, Armenia a Phalestina, i ddod i drafod y problemau a oedd yn prysur greu rhaniadau ymhlith Cristnogion. Fe ddaeth oddeutu dwy fil o bobl i Nicea gan gynnwys 318 o esgobion. Y prif beth a gytunwyd ganddynt oedd geiriad Credo Nicea sy'n datgan bod y Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân yn bersonau ar wahân ond yn gyfartal ac o'r un hanfod.

Un o benderfyniadau pwysig y gynhadledd oedd sefydlu'r 25ain o Ragfyr fel dydd genedigaeth Iesu Grist ac fe'i defnyddiwyd wedyn fel sail calendr newydd yr Ymerodraeth. Yn Nicea hefyd penderfynwyd sut i benodi Sul y Pasg pob blwyddyn. Y rheol yw bod y Pasg yn disgyn ar y Sul cyntaf ar ôl y lleuad lawn a ddigwydd ar 21 Mawrth sef cyhydnos y Gwanwyn, neu ar un o'r 28 diwrnod sy'n dilyn. Golyga hyn y gall Sul y Pasg ddisgyn mor gynnar â 22 Mawrth neu mor hwyr â 25 Ebrill. Bu galwadau dros y blynyddoedd i sefydlu dyddiad pendant ar gyfer y Pasg ac yn 1963, cafwyd datganiad gan Gyngor y Fatican eu bod yn fodlon i hynny ddigwydd os ceid cytundeb rhwng yr holl eglwysi. Dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach rydym yn dal i ddisgwyl clywed bod pawb yn cytuno !!

Y Pasg wrth gwrs yw gŵyl bwysicaf yr eglwys Gristnogol. Atgyfodiad Iesu Grist yw sail ein cred a'n bodolaeth. Heb yr Atgyfodiad ni fyddai pwrpas i'n bodolaeth ac ni fyddai Cristnogaeth yn bosib hebddo. Bu dioddefaint Iesu yn destun i gerflunwyr ac artistiaid mawr y byd. Cyfansoddwyd llawer iawn o'n cerddoriaeth fwyaf sanctaidd wrth ddefnyddio disgrifiadau'r Efengylau o'r Croeshoeliad. Yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2003 un o'r darnau a ganwyd gan gôr yr Eisteddfod oedd Offeren Haydn sef *Missa in Angustiis 1798.* Un o'r profiadau mwyaf oedd canu *Crucifixus* ac yna ei ddilyn gyda gorfoledd yr *Et Resurrexit.*

Fe ellir dadlau mai'r lle i gael hyd i'r llenyddiaeth orau yn y Gymraeg am y Groglith a'r Pasg, heblaw am y Beibl, yw yn *Caneuon Ffydd, 482-566*, sef cyfanswm o 86 o emynau. Gan ystyried bod 873 o emynau yn y gyfrol, ychydig llai na 10% sy'n trafod digwyddiad pwysicaf ein ffydd. Wedi dweud hynny, yr emynau hyn, sy'n dechrau gyda chwestiwn morwyn John Elias *Ai am fy meiau i (CFf 482),* hyd at emyn George Rees *CFf 543, O Fab y Dyn*, sydd wedi rhoi mewn geiriau cwbl gofiadwy ddioddefaint Iesu Grist. Mae gorfoledd yr Atgyfodiad yn atseinio wrth gwrs yn *CFf 543, Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist*, emyn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd at emyn Siôn Aled o'r ugeinfed ganrif sef *CFf 564 - Mae'r Iesu'n fuddugol.*

Ac eithrio ein hemynau, prin ryfeddol yw'r farddoniaeth am y Groglith a'r Pasg. Fe fyddai'n amhosib yn fy marn i lunio casgliad teilwng o'r cerddi sydd ar gael ar y pwnc. Wedi cyfaddef hynny, mae yna ychydig o feirdd sydd wedi llwyddo i ddweud eu neges mewn ffordd gofiadwy iawn. Un o'r beirdd hynny yw Gwyn Thomas ac yn *Groglith* o'i gyfrol 'Darllen y Meini', mae'n ein dwyn ni at y Groes ac at y rhai sy'n darganfod: *Rhyw deimlad cryfach na chaos / Yn y darfod diystyr fod yna Ystyr.*

Un arall sy'n dod â ni wyneb yn wyneb â'n heuogrwydd yw Gwilym R Jones yn ei gerdd *Yr oeddem ni yno.* Fe ddywed y bardd inni blethu'r ddraenen, sgrechian *Croeshoelier Ef*, llunio'r hoelion a'r waywffon a derbyn arian y brad. Oherwydd y pethau hyn rydym yn *euog o'r Fradwriaeth Fawr.* Camp fyddai i unrhyw un ddarllen y gerdd hon heb deimlo cywilydd am y cyfan.

*O! Yr oeddem minnau yno, / a byth ni ddylid gadael inni ei anghofio.*


Nid yn annisgwyl efallai, gan Gymro Catholig, sef Saunders Lewis, y ceir rhai o gerddi gorau'r Groglith a'r Pasg a hynny yn 'Cerddi' a olygwyd gan R Geraint Gruffydd. Mae yna hyfrydwch arbennig yn ei emyn *Ave Verum Corpus* (tudalen 61), a gellir ymgolli'n llwyr o dan gyfaredd a champ ei gywydd i *Emmäws* (tudalen 28). Ni ellir ond cytuno â R Geraint Gruffydd mai yn y cerddi rhydd odledig y gwelir meistrolaeth y bardd ar rythm a saib. Enghraifft wych o'i ddawn yw ei gerdd *I'r Lleidr Da* sy'n arwain i uchafbwynt annisgwyl a heriol. Ar yr olwg gyntaf cerdd Vers Libre yw *Et Homo Factus Est. Crucifixus* ond mae'r awdur wedi defnyddio odlau i gynnal ystyr a mydr hefyd. Llwyddodd Saunders Lewis i asio'r Nadolig, y Groglith a'r Pasg yn y gerdd hon gan ddinoethi greddf ladd dynolryw. Os am weledigaeth wahanol y Pasg hwn, ni allwch wneud yn well nag ychwanegu'r cerddi uchod i'ch darllen a'ch myfyrdod.

## Y Groglith

Cwpan cur, cwpan cariad, cwpan croes,
cwpan Crist ein Ceidwad;
i fedd du, ufudd i'w Dad
a'r hoelion oedd yr alwad.

*Robin Hughes*





## Y Pasg

Carcharor dan ei goron, a gododd
i gadw'i gyd-ddynion;
epistol apostolion
sy'n dyst annwyl i'r ŵyl hon.

*Robin Hughes*

**Yn seiliedig ar Ioan 6:67, ac ar ôl darllen *O'r Gadair ar y Goror***



Gofynnodd i'w ddisgyblion
dan gysgod Calfarî:
A fynnwch chwithau hefyd
efallai 'ngadael i?

Mor hawdd yw digalonni
a chefnu ar y Tad,
heb weld fod egin newydd
mewn blagur yn ein gwlad.


Mae'n gofyn i ni heddiw
yn nyddiau'r ddau neu dri:
A fynnwch chwithau hefyd
efallai 'ngadael i?

*–RJ*

**Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd**

| Ebrill | | Mai | |
|---|---|---|---|
| 5 | Dyffryn Clwyd | 3 | Ceredigion |
| 12 | Glannau Meirion a Dyfi | 10 | Dyffryn Clwyd |
| 19 | Môn ac Arfon | 17 | Dyffryn Conwy |
| 26 | Sul y Synod | 24 | Gwyliau |
| | | 31 | Glannau Meirion a Dyfi |

***Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.***




# DEFOSIWN

gan y Parchedig JOHN BRYN JONES

Pan oeddwn yn hogyn ysgol yng Nghorris yn y 30au, arferwn fynd ar daith bws o ddeg milltir i aros gyda modryb ac ewythr i mi yn Nolgellau. Ystyriwn hynny yn bleser o'r mwyaf, i gael dychwelyd i'r dref y cefais fy ngeni ynddi. Roedd mynd oddi cartref yn y dyddiau hynny yn brofiad digon prin, ar wahân i fynd ar wibdaith yr Ysgol Sul, i leoedd fel Y Rhyl neu Landudno. Clywais am rai yn y cyfnod hwnnw yn cael eu cynghori i fynd ar fordaith, naill ai i rai o wledydd Môr y Canoldir neu i Dde Affrica, yn y gobaith o adfer eu hiechyd. Dychmygaf y buasai mordaith felly wedi bod yn fenter eitha' drud. Ond erbyn heddiw, bu newid mawr yn yr arferiad o fynd ar wyliau; aeth yn beth cyffredin iawn i rai fynd ar wyliau unwaith, os nad dwywaith y flwyddyn. Yn sgil hynny, sefydlwyd y Bwrdd Twristiaeth a phrin bod tref yn unman nad oes siop deithio i gynorthwyo pobl gyda manylion ynghylch prisiau a lleoedd i ymweld â nhw, heb sôn am adnoddau'r We. Mae twristiaeth yn hwb sylweddol i'r economi, wrth gwrs. Mae'n sefyll i reswm bod gwyliau neu seibiant yn llesol i ysbryd a chorff, petai ond i gael ychydig o newid oddi wrth bwysau a chyfrifoldebau pob dydd, a chyfle i ymlacio a threulio mwy o amser yn yr haul nag ydym yn debygol o'i gael yma. Nid yw hynny'n wir bob amser; cofiaf i Vera a minnau fynd i Malta ar ein gwyliau a chael glaw bob dydd! Ac mae effeithiau'r hinsawdd economaidd yn parhau gyda mwy o bobl yn ddi-waith a mwy nag a feddyliwn yn ei chael hi'n anodd i ymdopi â'u pensiwn wythnosol. Hyn i gyd er imi glywed David Cameron a'r Canghellor George Osborne yn dweud bum mlynedd yn ôl ein bod ar fin dod allan o'r dirwasgiad; choelia i fawr!

Ond mae math arall o wyliau y gwyddom amdanynt yng Nghalendr yr Eglwys: yn eu plith y mae'r Garawys. Deuwn wedyn at uchafbwynt yr Wythnos Fawr, y Groglith ac yna Gŵyl y Pasg. Mae'r Garawys ymhell o fod yn gyfle i ymlacio, ond yn hytrach i ddilyn Iesu mor agos ag y gellir wrth iddo wynebu'r Groes. Mae'n parhau i gynnig ei gwmni a nerth ei Ysbryd Glân i'n harwain ar ein pererindod.

Bob blwyddyn bydd rhai yn cael cyfle i gyfarfod mewn eglwysi a chapeli fel grwpiau i drafod a myfyrio ar gyrsiau fel y rhai a baratoir gan Cytûn. Mae llawer o bobl yn ymgasglu mewn mannau fel canolfan Pant Asaff, lle cânt arweiniad Urdd Brodyr y Ffransisciaid i ddringo Gorsafoedd y Groes (Stations of the Cross) a derbyn bendith drwy hynny. Yn ystod y Garawys hefyd byddwn yn ymprydio ac yn ymatal rhag rhai bwydydd a diodydd ac arferion diangen eraill, gan orffen yr ympryd pan ddaw gwyliau'r Pasg. Onid gwell ar ryw olwg fyddai parhau i ddisgyblu ein hunain, heb ddychwelyd i rai o'n hen arferion? Tybed beth yw eich barn chi? Beth bynnag fydd ein hanes yn ystod y Garawys, y peth pwysicaf yw inni fod yn well dilynwyr i Grist nag oeddem gynt.

Dymunaf Basg dedwydd a bendithiol i chi i gyd.

**GWEITHREDU DROS BLANT Ionawr - Mawrth 2015**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Capel Cynfaen, Calcoed | £45-60 | Tywyn, Meirionnydd (cardiau Nadolig) | £10-00 |
| Di-enw, Mynydd y Fflint | 15-00 | Bathafarn Rhuthun | 139-80 |
| Ebeneser Eglwysbach | 25-00 | | |

Ac yna drwy law Mrs Ceinwen Williams y cyfraniadau canlynol gyda diolch iddi hi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Soar Brunswick, Rhyl | £100-00 | Rehoboth, Gwaenysgor | £20-00 |
| Bethel, Prestatyn | 100-00 | Pendref, Dinbych | 30-00 |
| Bethel, Gronant | 20-00 | Salem, Rhyd-y-foel | 180-00 |

**CYFANSWM: £685-40**

Ar ran Gweithredu dros Blant, mae'n bleser gen i gael diolch yn fawr i bawb am bob cyfraniad. – Robin Jones.

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Pontrobert

**GWELLHAD**
Rydym yn falch bod Bronwen Gwalchmai wedi gwella ar ôl llawdriniaeth i'w llygaid.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mair Jones sydd wedi colli cyfnither yng Nghaernarfon, ac â Bronwen Gwalchmai a gollodd berthynas.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Siân Vaughan Jones yn ei swydd newydd gyda Menter Maldwyn Mae Siân wedi bod yn athrawes yn Ysgol Pennant, Penybont-fawr, am dros ugain mlynedd. Pob dymuniad da iddi.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Tabernacl, Llanfyllin

**SUL Y GWAHANGLWYFION**
Ar Ionawr 25, roeddem nid yn unig yn dathlu Dydd y Santes Dwynwen ond hefyd yn cynnal oedfa flynyddol undebol Llanfyllin er budd yr achos yng Nghymru sy'n cefnogi gwahanglwyfion y byd. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl gyda'r Parchedig Darren Mayor, Eglwys Gymunedol Llanfyllin, yn arwain ac yn pregethu. Cymerwyd rhannau gan rai o'r bobl ifanc sef Elen, Mari, Elain a Cerys, yn ogystal â chyfraniadau gan Alwena Francis ac Eldrydd Jones wrth yr organ. Croesawyd pawb a rhoddwyd y fendith gan Tom Ellis. Darparwyd paned a bisged yn y festri wedi'r gwasanaeth. Gwnaed y trefniadau gan y cyswllt lleol Mair Ellis ac adroddodd fod y casgliad ynghyd â'r rhoddion yn £200. Da iawn ynte?

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â theulu'r ddiweddar Mrs Angharad Thomas, sef mam Alwena Francis, Penllwyn.

**YSBYTY**
Dymunwn yn dda i Mrs Nancy Jones, Y Gadlas, Penygarnedd, mam Meirion Jones, Bryncoch, Brithdir. Mae hi gartref erbyn hyn ac yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Wolverhampton.

**GŴYL DDEWI**
Cynhaliwyd oedfa flynyddol Gŵyl Ddewi dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Llanfyllin yng Nghapel y Tabernacl ar Fawrth 1af. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Richard Lewis, Bow Street, a llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Gwyndaf Richards, Is Gadeirydd y Gymdeithas. Yr organydd oedd Llywela Roberts, a thalwyd y diolchiadau gan Robin Hughes. Aeth y casgliad tuag at elusen Achub y Plant.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Eglwys Unedig Colwyn

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Cymerodd rhai o'n haelodau ran yng ngwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd ar Fawrth 6ed.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Bu Mrs Blodwen Jones, Cartref Nyrsio Abbey Dale, Bae Colwyn, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddi a chofion cynnes hefyd at bawb arall sydd mewn cartrefi preswyl ar y funud.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**ER COF ANNWYL**
Ar noswyl y Nadolig, bu farw **Mrs Rhiannon Williams** yn 87 mlwydd oed. Hi oedd aelod hynaf y capel. Er nad oedd wedi gallu mynychu'r oedfaon yn y blynyddoedd diwethaf, bu'n ffyddlon iawn pan oedd hi'n byw ym Mryn Glas, Bryngwran. Fe'i ganed ym Mhenrhyn-deudraeth a symud i'r Bala yn eneth ifanc. Bu'n athrawes mewn nifer o ysgolion gan weithio gyda phlant ag anghenion arbennig. Gwraig ddistaw, annwyl a chlên oedd Mrs Williams ac roedd gan bawb air da amdani. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parchedig Emlyn Richards a'r Diacon Stephen Roe.

Cydymdeimlwn â theulu'r Parchedig John West, a fu farw yn ddiweddar. Bu'n pregethu yma yn Ebeneser lawer gwaith a chofir amdano fel gŵr bonheddig iawn. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Eirlys Williams ar farwolaeth ei gŵr, Mr Peter Williams, Dulas. Bydd Mrs Williams yn dod atom yn rheolaidd i bregethu a byddai Mr Williams gyda hi bob tro. Byddai'r ddau yn addurno eu cartref a'u gardd â llawer o addurniadau bob Nadolig, gan godi miloedd o bunnau i nifer o elusennau.

**YSBYTY**
Dymuniadau gorau i **Mrs Gwyneth Thomas**, ein horganydd ffyddlon, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Chwith oedd gweld sedd yr organ yn wag a ninnau'n gorfod adrodd yr emynau. Dymuniadau gorau hefyd am wellhad buan i **Mr Emyr Thomas**, gŵr Mrs Margaret Thomas, Chwaen Wen Isaf.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Bethel, Prestatyn

**TEYRNGED I MR RHYS JONES**
Roedd Mr Rhys Jones yn un o'n haelodau ffyddlonaf; bu'n flaenor, yn organydd dawnus ond yn fwy na dim yn gyfaill arbennig i bawb. Roedd ganddo amser a gair caredig i bawb – o'r plentyn lleiaf i'r aelod hynaf – ac roedd fel tad i'w gyd-aelodau. Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwen a'r teulu. Gyda diolch i Caryl Parry Jones, dyma ran o'i theyrnged i'w thad:

"Roedd Dad yn athro hapus a brwdfrydig ac yn ôl be 'dan ni wedi dod i ddallt, un gafodd ddylanwad oes ar lawer. Roedd o'n athro teg: doedd o ddim yn barnu ymddygiad nes ei fod o'n gwybod y ffeithiau i gyd. Yn aml iawn roedd ymddygiad gwael yn cuddio tristwch ac roedd Dad yn gallu dod i wraidd y broblem gyda'i sgwrs rwydd a'i empathi hoffus. Waeth pa mor fach neu fawr oedd y broblem, at Mr Rhys Jones y byddai pob disgybl yn mynd i'w datrys. Roedd o hefyd yn dod â hwyl a chwerthin i'r stafell ddosbarth fel ym mhobman arall ac roedd cerddoriaeth bob amser yn rhan o hynny. Roedd y plant wrth eu bodd pan fydda fo'n cyfeilio i'w gwasanaeth boreol - digon o fynd, newid cyweirnod, chwistrelliad o fywyd newydd i'r hen emynau, ychwanegu cordiau swing nes bod pawb yn morio.

Roedd y piano, dan reolaeth Dad, yn arf barod ar gyfer dod â hiwmor a chyffro a pathos i unrhyw sefyllfa. Roedd cyfansoddi yn dod yn hawdd iddo fo a doedd na'm rhyfedd gan fod ganddo gerddorfa o dan ei fysedd fydda'n ei alluogi i fynd ar unrhyw daith gerddorol yn rhwydd ac yn llawen. A diolch byth fod ganddon ni ddegau o'i gyfansoddiadau i'w mwynhau a'u perfformio am byth. Heb unrhyw amheuaeth, un o uchafbwyntiau gyrfa gerddorol Dad oedd ffurfio Cantorion Gwalia ym 1958. Dyma i chi gôr o unawdwyr dawnus, enillwyr cenedlaethol, llond llwyfan o garisma a thalent ... a drygioni a chwerthin. Roedd Dad, yn ogystal â bod yn Gyfarwyddwr Cerdd ar y cyfan hefyd yn compere tan gamp. Roedd ganddo dalent anferth arall sef y gallu i gyfathrebu ac i roi amser a sylw i unrhyw un - p'un ta o'dd o'n eu nabod nhw neu beidio.

Mi roedd wrth ei fodd yn ymweld â stiwdios y BBC ym Mangor, yn recordio rhaglenni fel Segura a Taro Nodyn a'i ddiwrnod 'Bangor' o oedd uchafbwynt ei wythnos yn y blynyddoedd dwetha 'ma. Ond roedd gwneud y rhaglenni yn dod yn ail i rannu ei straeon a llenwi Bryn Meirion gyda chwerthin a llawenydd. Roedd o mor ddiolchgar o fod wedi cael

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

cyfle i gyflwyno rhaglenni oedd yn gadael iddo fo ddewis ei gerddoriaeth a ninnau yn ein tro yn mwynhau ac yn dysgu yn wythnosol. Achos os oedd 'na ffaith ddiddorol ond cwbl ddiwerth allan yna yn rhywle, mi fasa Dad yn ei gwybod hi.

Gyda'i wyrion a'i wyresau roedd o'n hael, yn ddoniol, yn gryf, yn amyneddgar ac yn saff. Ac i Dafydd a minnau, roedd o'n graig. Yn angor. Dwi'm yn cofio iddo fo'n ffraeo ni byth. Gair bach tawel os oedd raid ac roedd unrhyw sefyllfa annifyr yn cael ei chwalu'n ddigon buan hefo rhyw "aside" fydda o leia'n codi gwên ond yn amlach na pheidio yn gadael pawb yn pwffian chwerthin. Os fedrwn ni'n dau fod hyd yn oed fymryn bach yn debyg iddo fo, yna mi fydd ein byd ni'n gyflawn. Ella bod hwn yn adeg da i mi'n bersonol ddiolch o galon i mrawd Dafydd am ei ofal parod a thyner dros Dad yn enwedig dros y flwyddyn anodd ddwetha 'ma. Roedd gofal Mam drosto yn ystod ei salwch yn anhygoel. Welis i rioed gariad tebyg.

Diolch Dad am dy gariad, dy ddawn, dy haelioni, dy hiwmor, dy ffraethineb, dy allu, dy dalentau difesur. Mae'r byd ma'n mynd i fod yn lle rhyfedd hebddot ti ac mae'n bywydau ni'n mynd i fod yn llawer gwacach heb dy gwmni di ond 'dan ni mor lwcus ein bod ni wedi dy gael di yn oleuni disglair yn ein bywydau ni gyd.

I gloi, englyn anfonwyd aton ni yn garedig iawn gan y Prifardd Idris Reynolds...

Os mudan ydyw'r Glannau – yn oesol
Daw cysur i chwithau
Yn yr hwyl sydd yn parhau
I oedi rhwng y nodau."

## Ebeneser, Caernarfon

**COFION AT BAWB SY'N WAEL**

Anfonwn ein cofion cynhesaf ar yr aelodau hynny sydd mewn ysbytai neu wedi bod yn anhwylus:- **Merfyn Jones; Mary Christine; Betty Pritchard; Glenys Williams; Nel Williams** a **Joe Williams**. Mae **Eira Owain** hefyd wedi cael triniaeth i'w phen-glin ond yn edrych ymlaen at gyflymu ei cherddediad yn fuan.

**ER COF ANNWYL**

Bu farw Kate Jones, Tryfan, yn ddiweddar ar ôl dioddef gwaeledd hir a phoenus. Un o'r gwragedd distaw hynny sy'n barod eu cymwynas bob amser.

Yn frawychus o sydyn bu farw Adrian Williams, nai i Kate Williams a'r diweddar Ifan Hefin Williams, a chefnder i Kathleen Lund.

**BEDYDD**

Ar fore Sul, 22 Chwefror, bedyddiwyd Gethin Emlyn Hughes, mab Dyfed Peris ac Ilid Hughes, gan y gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams. Croeso i'r gorlan, Gethin.

**GWIRFODDOLI YN NE AFFRICA**

Ar ôl treulio'r Nadolig yng nghwmni ei deulu unwaith yn rhagor dychwelodd Bryn Parry, Is Horeb, i Dde Affrica i weithio fel gwirfoddolwr mewn ysgol. Dyma ei brofiad cyntaf o ddysgu mewn cyfandir hollol ddieithr.

**DATHLU DYDD GŴYL DEWI**

Yng nghwmni Hogiau Bodwrog, cawsom noson arbennig o gawl a chân, ar ffurf yr hen nosweithiau llawen. Cawsom ganeuon traddodiadol a cherdd dant yn ogystal ag unawdau i gyfeiliant y gitâr. Rhoddodd Arwel Jones ddatganiad ar y piano, a'r bysedd chwim yn creu awyrgylch hyfryd. Meibion Sir Fôn ar eu gorau. Croesawyd y parti gan Megan Roberts a gwnaed y diolchiadau gan y gweinidog. Diolch i Urdd y Chwiorydd am eu holl lafur yn trefnu'r noson.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

## Saron, Bethel, Arfon

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Eleri Warrington, Wern Bach, Bethel, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl ac arbennig iawn sef Mrs Helen Elizabeth Roberts, gynt o Gwyndre, Bethel. Roedd Mrs Roberts yn 101 mlwydd oed, yr hynaf o'n haelodau. Pan oedd mewn iechyd byddai'n ffyddlon iawn yn y gwasanaethau a pharhaodd yn hael iawn â'i chyfraniadau hyd y diwedd. Cynhaliwyd ei hangladd o dan ofal ei gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams. Bu ei merch Eleri a'r teulu yn hynod ofalus ohoni ar hyd y blynyddoedd; meddyliwn amdanynt yn eu colled a'u chwithdod.

*Gohebydd – RJ*

## Salem, Rhyd y Foel

**PROFEDIGAETHAU**

Gyda thristwch mawr y cofnodwn fod profedigaeth wedi dod i ran tri o deuluoedd Salem. Dydd Iau Chwefror 12fed bu farw ein horganydd, **Mrs Elizabeth Edwards**, yn 67 oed wedi gwaeledd creulon a frwydrodd mor ddewr. Priod annwyl i John, mam gariadus Sarah a chwaer arbennig i Siân, chwaer yng nghyfraith a ffrind i Ieuan, Cartrefle, Rhyd y Foel, a modryb hoffus Ruth ac Aled a'u teuluoedd. Yn frawychus o sydyn ar Chwefror 13eg, ac yntau yn ddim ond 26ain mlwydd oed bu farw **Geraint Richards**, mab Mr a Mrs D Richards Gwernymynydd, brawd arbennig i Mrs Rowena Pegg, brawd yng nghyfraith a ffrind i Karl ac Yncl Geraint annwyl i Cadi a Gwil. Ar Chwefror 18fed, yn 93 oed, bu farw **Mr Oliver Stanley Davies** (Stan Morannedd) ewythr annwyl i Esther a Dyfed Roberts, Tyddyn Ucha, Abergele. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf tuag atynt oll yn eu hiraeth a'u galar.

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchiadau calonnog i Beth Megan Roberts am lwyddo gydag anrhydedd yn arholiad Gradd 5 am Ganu a Pherfformiad Dramatig. Da iawn hi hefyd am ei llwyddiant yn Eisteddfod y Cylch a phob lwc yn Eisteddfod y Sir.

*Gohebydd –Siân Price*

## Horeb, Croesoswallt

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**

Cawsom noson ddifyr yng nghwmni **Parti'r Siswrn** o'r Wyddgrug gyda'u harweinydd, Mair Selway. Cawsom amrywiaeth o ganeuon, cerdd dant a chaneuon gwerin gydag unawdau a phedwarawd. Cawsom hefyd noson bleserus pan ddaeth **Aeryn Jones**, Dinmael, atom i sgwrsio am ei waith ar hyd y blynyddoedd. Soniodd am y troeon trwstan pan oedd yn was ffarm, yn plygu gwrych, yn walio ac yn ddiweddarach yn gweithio mewn cartref gofal henoed. Mwynhawyd **cinio Nadolig blasus** ym mis Rhagfyr gyda sgwrs a chwmpeini ffrindiau, yna yn Ionawr croesawyd Emyr a Jane Owen Dolanog i siarad am **Dolen Ffermio** sydd yn cysylltu cymunedau gwledig Sir Drefaldwyn a Gogledd Sir Amwythig gyda chymunedau gwledig yn Nwyrain Uganda. Mae catalog Dolen Ffermio yn cael ei roi ym mhapur bro Yr Ysgub ar ddiwedd pob blwyddyn i godi arian i helpu plant amddifad a bregus Uganda. Wedyn yn Chwefror croesawyd Richard a Bethan Jones, Pontfadog, atom a chawsom sgwrs am **hanes capeli Cymraeg Croesoswallt**. Daeth llawer o Gymry i fyw i'r dre pan ddechreuwyd gwaith y rheilffordd yn y "Cambrian Works". Cawsom hefyd noson yng nghwmni Alwyn Hughes o Langadfan, a fu'n sôn am erchyllterau'r **Rhyfel Byd Cyntaf**.

**DATHLU GŴYL DEWI**

Daeth nifer dda ynghyd i festri Seion i fwynhau swper blasus wedi ei baratoi gan Howard Martin a'i gwmni. Ar ôl swper cawsom ein diddanu gan barti **Llond Llaw** o ardal Pontrobert. Cawsom ganeuon amrywiol ganddynt,

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

ac ambell eitem ar y delyn hefyd. Roedd yn noson ardderchog i ddathlu gŵyl ein nawddsant.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Mrs Cissie Hughes ar y brofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, y ddiweddar Mrs Angharad Thomas, gynt o Lwydiarth.

**PEN-BLWYDD PRIODAS**
Llongyfarchiadau i Brenda a Gary Hughes, Croft, Gwern-y-Brenin, ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Brenda sydd yn dosbarthu'r Gwyliedydd yn ein plith.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Bethel, Rhiwbeina

**BORE COFFI A MWYNHAU PRYD GYDA'N GILYDD**
Ar Ionawr 6ed fe gynhaliwyd bore goffi yn y capel a chafwyd sgwrs gan Dianne Bartholomew, yn sôn am waith y Banc Bwyd yng Nghaerdydd. Mae Bethel yn rhan o'r cynllun gan y cesglir bwydydd bob Sul i'w hanfon i'r Banc. Ar 3 Chwefror, fe drefnwyd cinio canol dydd i dros ugain o'n haelodau mewn gwesty lleol.

**O'R GAIMAN**
Yn ystod mis Chwefror croesawyd teulu o'r Gaiman ym Mhatagonia i'n plith. Roeddynt Siôn a Rebeca Dafis a'u merch Nia ar wyliau yn Rhiwbeina.

**PEN-BLWYDD HAPUS**
Yn ystod oedfa bore Sul, 8fed Chwefror, cyflwynodd ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, rodd ar ran y capel i Gwilym E Roberts, organydd y capel ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

**DYDD GŴYL DEWI**
Yn ystod oedfa bore Sul Dydd Gŵyl Dewi, cawsom gwmni'r Parchedig Aled Gwyn, un o fechgyn Parc Nest. Cafwyd anerchiad pwrpasol ganddo ar gyfer yr achlysur. Hefyd roeddem yn falch o weld Bob Davies, 90 oed, yn ôl yn y capel ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Cawsom swper hefyd ar 3 Mawrth i ddathlu Gŵyl Dewi, sef swper bys a bawd yn deli Snails yn y pentre.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn fel eglwys ag Arthur a Mair Jones ym marwolaeth mam Arthur ym mis Chwefror. Roedd Mrs Jones yn byw yng Nghaernarfon ac wedi cyrraedd yr oedran teg o 106 yn ystod mis Rhagfyr. Anfonwn ein cofiom hefyd at Mair sy'n wynebu rhagor o lawdriniaethau yn y dyfodol agos.

*Gohebydd: Gwilym E Roberts*

**Diolchwn yn gynnes am roddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi'r Gwyliedydd:**

| | |
|---|---|
| Mr Elwyn Parry | £10-00 |
| Mrs M T Vodden | £20-00 |
| Mr Trygan Roberts | £25-00 |
| Dr Telfryn Pritchard | £30-00 |
| Mrs Mercy Jones | £10-00 |
| Miss M Roberts, Bebington | £40-00 |
| Mrs Morfudd Roberts | £30-00 |

# O'R PEN YMA

gan Angharad Tomos



Bu mis Chwefror yn un llwm. Dwi'n casáu'r mis hwn beth bynnag, ond roedd Chwefror eleni yn arbennig o greulon. I feddwl ei fod o'n fis bach, mi lwyddodd i ladd lot o gewri. A bob tro y bydd bwlch o'r fath yn ymddangos yng ngwead ein cenedl, mae pobl yn anorfod yn deud, "Biti na fyddem wedi cael mwy o'u cwmni pan oedden nhw'n fyw". Difaru wnawn ni na sgwennon ni lythyr, na ddaru ni alw heibio neu godi'r ffôn. Mae pob marwolaeth yn tanlinellu mai hyn a hyn o amser sydd 'na, ac mae'n bechod bod cymaint ohono yn cael ei wastraffu ar ddibwys bethau.

Roedd Pobl Stalwm yn llawer gwell na ni am 'alw'. Byddai penwythnosau yn cael eu neilltuo i 'ymweld'. Roedd o'n ddiflas i mi fel plentyn, ond cofiaf oriau a dreuliwyd yn nhŷ rhywun neu'i gilydd yn gwneud dim mwy na sgwrsio. Cadw cyfeillgarwch yn fyw ydi peth fel hyn, ac mae'n llawer pwysicach na siopa.

Ond er mor bwysig yw cadw tân mwyn gyfeillach ynghyn, mae'n bwysig gwneud ffrindiau newydd. Hynaf yn y byd ydyn ni, anodda'n y byd yw gwneud hyn. Rydan ni'n gyfforddus yn ein cylchoedd, ac anodd yw mynd tu hwnt iddynt. Dan ni'n credu na fyddai gan bobl ifanc ddiddordeb ynom.

Un a brofodd y gred hon yn anghywir oedd Merêd. Roedd o'n berson carismatig, rhaid dweud, ond mi aeth allan o'i ffordd i gyfarfod efo pobl iau nag o ei hun. Hyd yn oed pan oedd dros ei nawdeg, roedd o'n gwneud ymdrech i ddod i 'nabod pobl yn eu hugeiniau. O ganlyniad, yn lle edrych yn ôl drwy'r amser, roedd yn edrych ymlaen. A dyna wefr yw hynny.

Yn ystod y Gwanwyn eleni, beth am inni feddwl lle gallwn ddod ar draws pobl ifanc? Mae ymddiddori yn yr Ysgol Sul yn gallu cynnig cyfle, ymddiddori ym mywydau plant ac wyrion, cynnig help mewn ysgolion, siarad efo pobl ifanc ar y stryd. Anaml y gwnaiff pobl ifanc gymryd y cam cyntaf, ond roeddwn i yn gwerthfawrogi pobl hŷn yn cymryd diddordeb ynof ers talwm. Ac yn wir, mae yna bethau cyffredin yn ein huno - tase fo 'mond y blynyddoedd yr ydym wedi byw!

Efo pob colled, mae ein byd ni yn crebachu, ond gyda phob cydnabod newydd, mae ein byd yn lledu. Mae pobl ifanc yn edrych ar y byd drwy sbectol wahanol. Mae'n fraint weithiau cael edrych drwyddi.

## Ebeneser, Dolgellau

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwenor Jones sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylus yn ddiweddar.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â dwy aelod, sef Mrs Ruth Slattery sydd wedi colli ei thad yn Derby a Mrs Margaret Barron a gollodd ei brawd yn Nhregarth. Meddyliwn amdanynt yn eu colled a'u chwithdod.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Pisgah, Rhiwlas

**DYMUNIADAU DA**
Meddyliwn am y rhai sydd mewn gwaeledd. Rydym yn llawenhau fod John Huw Evans yn teimlo'n well a'i fod wedi cael dod adref.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Horeb, Llanrwst

Cynhaliwyd 'Cinio Cynnil', sydd wedi dod yn arferiad blynyddol rhwng capeli ac eglwysi'r dref erbyn hyn, yn ysgoldy Horeb. Eleni mae'r cyfraniadau ariannol er budd Hospis Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Cafwyd cefnogaeth dda i'r achosion teilwng hyn.


*Gohebydd – Eira Jones*

# PLANHIGION Y BEIBL

gan W. Arvon Roberts

### 71. PALMWYDDEN (Phoenix dactylifera)

"Aethant o Mara a chyrraedd Elim, lle yr oedd deuddeg o ffynhonnau dŵr a saith deg o balmwydd, a buont yn gwersyllu yno. Aethant o Elim, a gwersyllu wrth y Môr Coch." Numeri 33: 9, 10.



Gwerddon oedd Elim lle bu'r Israeliaid yn gwersyllu yn ystod eu taith drwy Wlad yr Addewid. Mae nifer o naturiaethwyr o Herodotus i Linnaeus wedi cytuno mai'r balmwydden yw'r hynotaf o'r holl goed. Ar ôl ei phlannu mae'n cymryd rhwng chwech a deg o flynyddoedd cyn dwyn ffrwyth. Gall dyfu mor uchel â chan troedfedd. Mae un boncyff unionsyth unigol yn codi o'r ddaear hyd at y dail uchel. Nid oes iddi frigau ond mae'r dail fel coron ar ben y boncyff garw. Mae'r datys, sef ffrwyth y balmwydden, yn hongian yn glwstwr o dan y dail ac maent yn fwyd maethlon. Defnyddir y dail hefyd i wau matiau, basgedi a brwsys, a'r pren ar gyfer tanwydd, tra bo'r ffibrau yn cael eu defnyddio i wneud edau a rhaffau. Ceir hefyd sudd o'r goeden a ddefnyddir i wneud gwirod.

Mae'r palmwydd yn tyfu o ddyffryn yr Iorddonen i'r Môr Marw. Roedd Jericho yn cael ei hadnabod fel "dinas y palmwydd" (Deut. 34: 3). Cysylltir y palmwydd yn aml â phrydferthwch yng nghanol anialwch a chysgod i'r teithiwr blinedig. Fel y canodd William Ambrose (Emrys):

> Arglwydd! Gad im dawel orffwys
> Dan gysgodau'r palmwydd clyd.

Dail y palmwydd oedd gan y dyrfa a waeddodd "hosanna" pan aeth Iesu i mewn i Jerwsalem. Ac yn Llyfr y Datguddiad hefyd dywedir "Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo...yn sefyll o flaen yr orsedd...wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo". (Datguddiad 7 : 9).

### 72. PERAROGLAU (Astragalus tragacantha)

"Pan glywodd brenhines Seba am fri Solomon, daeth i Jerwsalem i'w brofi â chwestiynau caled. Cyrhaeddodd gyda gosgordd niferus iawn – camelod yn cludo peraroglau a stôr fawr o aur a gemau...Addefodd wrth y brenin, 'Gwir oedd yr hyn a glywais yn fy ngwlad amdanat ti a'th ddoethineb." 2 Cronicl 9:1,5.



Roedd y peraroglau hyn yn cael eu defnyddio fel arogldarth sanctaidd yn y Tabernacl. Mewn rhai cyfieithiadau Saesneg, mae'r gair a ddefnyddir am y planhigyn hwn yn cael ei gyfieithu yn anghywir fel "perlysiau". Glud tragacanth byd masnach ydyw, yn hytrach, ac mae'r planhigyn yn cael ei adnabod fel y tragacanth gwyllt neu'r astragal pigog, necoth y Beibl. Mae ganddo flodau tlws melyn tebyg i bysen ac mae'n llwyn bach grymus. Mae astragal yr anialwch yn ffynnu ar dywod yr anialwch yn ogystal ag yng ngwledydd oer, glawog y gogledd. Mae i'w gael ar draethau'r Môr Marw, 1,292 o droedfeddi o dan lefel y môr. Eto deuir o hyd iddo ar ben Mynydd Hermon, 9,101 o droedfeddi uwchlaw'r môr. Mae ugain o wahanol fathau o astragal, rhai yn ddim ond dwy droedfedd o uchder a rhai yn llwyni tal. Math bach a choediog gyda dail hir a drain pigog, cryf arno yw'r astragal y cyfeirir ato yn y Beibl. Mae'r drain mor finiog â nodwyddau. Mae resin gwerthfawr yn cael ei chwysu o'r drain yn yr heulwen a rhwbir pelen o gotwm dros y planhigyn i gasglu talpiau o'r glud sy'n hel ar y planhigyn.

# DERBY

gan Barbara E. Thomas

Fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, bu gan Synod Cymru gapel yn Derby hyd yn eithaf diweddar. Bu criw bychan ffyddlon yn gweithio drwy ei gilydd i gynnal gwasanaeth misol hyd nes iddi fynd yn rhy anodd parhau i gynnal yr achos. Yn Rhagfyr 2014, cynhaliwyd y gwasanaeth Nadolig olaf. Daeth nifer dda o'r Cymry a fu yn ymwneud â'r Capel ac aelodau o'r Gymdeithas Gymraeg at ei gilydd ar gyfer y gwasanaeth hwn. Cawsom hefyd beth o hanes y capel gan Mrs Jean Phillips, un o'r ffyddloniaid, ac fe siaradodd Dr Gwyn Davies, Nottingham, am ei amser yno. Cefais innau'r fraint o sôn am y croeso cynnes, y cyfeillgarwch a'r gwasanaethau yn ystod cyfnod o dros 35 o flynyddoedd. Cofio am aelodau a ffrindiau arbennig a hefyd am bwysigrwydd y capel i'r milwyr Cymraeg adeg yr ail ryfel byd. Roedd y drws yn agored i'r milwyr a'r aelodau yn eu croesawu.

Ac wrth gwrs, fyddai gwasanaeth o'r fath nac unrhyw achlysur arbennig ymhlith y Cymry ddim yn gyflawn heb y te parti ar y diwedd! Fe fydd mynd i Derby heb gael mynd i'r Capel yn rhyfedd iawn ar ôl cyhyd o amser ond mae'r atgofion yn felys ac i'w trysori.

## Dal fi'n agos at yr Iesu (CFf 726)

HANES CYFANSODDI EMYN

gan Elwyn Parry

Chwarelwr oedd fy nhaid ond wedi iddo golli ei iechyd symudodd o Flaenau Ffestiniog i San Clêr. Yno daeth yn ffrindiau â Joe Evans, gof oedd ag enw da am wneud offer fferm. Roedd Joe yn frawd i Dr Herber Evans a chanddo ef y cafodd fy nhaid y stori hon.

Pan oedd Herber yn weinidog yn Salem, Caernarfon, cyn iddo fynd yn brifathro Coleg Bala-Bangor, cafodd un o deuluoedd yr eglwys yno brofedigaeth lem. Bu farw'r fam yn ifanc a rhaid wedyn oedd i'r ferch ysgwyddo gofal y teulu. Yna, ymhen peth amser, bu farw ei thad ac un o'i brodyr mewn damwain yn y chwarel. Mewn cydymdeimlad dwys â hwy y cyfansoddodd Herber Evans ei emyn, i gysuro'r ferch a'r unig frawd oedd yn dal yn fyw. Yn ôl yr hanes, canwyd yr emyn yn wefreiddiol ar lan y bedd.

**OS NAD YDYCH WEDI RHOI GWYBOD EICH BOD YN DYMUNO PARHAU I DDERBYN Y GWYLIEDYDD DRWY'R POST, COFIWCH ROI GWYBOD I NI RHAG BLAEN**

# Yng nghwmni Buddug

Mae Buddug Jones yn mwynhau bywyd i'r eithaf. Ymhlith ei diddordebau y mae cerdded, dawnsio, dringo a mynd ar wyliau tramor. Yn ddiweddar bu ar y Weiren Wib yn Chwarel y Penrhyn. Hyn oll er ei bod yn ddall. Mi wnaeth golygyddion y *Gwyliedydd* fwynhau ymweld ag aelwyd groesawus Buddug a chael sgwrs â hi.



***G: Un o le ydych chi, Buddug?***
Buddug: Yn y Groeslon y cefais fy magu ond dwi'n byw yma yn Rhosbodrual, Caernarfon, ers ugain mlynedd bellach.

***G: Sut wnaethoch chi golli eich golwg?***
Buddug: Roedd rhywfaint o nam ar fy ngolwg ers imi fod yn fy 30au, oherwydd cyflwr etifeddol o'r enw *retinitis pigmentosa*. Yn y pen draw bu'n rhaid imi roi'r gorau i weithio a rhoi'r gorau i ddreifio, wrth i'r golwg waethygu. Dwi'n gweld y gwahaniaeth rhwng golau a thywyllwch rŵan ond fawr ddim mwy.

***G: Rydych yn aelod yn Ebeneser, Caernarfon. Ydi'r capel wedi bod yn bwysig i chi, erioed?***
Buddug: Wel, do, mi gefais fy magu yn y capel. Dwi'n cofio mynd i gapel Wesla Rhos Isa ar foreau Sul efo fy nhaid pan oeddwn yn fach, er mai Annibynwraig oedd fy mam. Ar ôl dod i fyw yng Nghaernarfon, dechreuais fynd i Ebeneser gyda Rosina, fy mam-yng-nghyfraith [Mrs Rosina Jones, Tŷ Capel Ebeneser, gynt]. Byddai'n dda gen i petai pawb yn uno – dwi ddim yn ddynas enwad! Mae Ebeneser yn gapel croesawus a dwi'n gweld caredigrwydd mawr yno.

***G: Cawsoch amser anodd: colli eich gŵr, Geraint, yn ifanc, a wynebu mynd yn ddall. Wnaethoch chi ddweud 'pam fi?' neu ddigalonni o gwbl?***
Buddug: Ar y dechrau, mi fues yn teimlo'n flin a rhwystredig. Yn un peth, roeddwn yn byw mewn lle diarffordd yn y Cilgwyn ar y pryd ac yn gorfod rhoi'r gorau i ddreifio. Roeddwn yn teimlo fy mod yn colli fy annibyniaeth a finnau dan 50 oed. Cefais gynnig mynd i gael hyfforddiant ar ddefnyddio ffon wen, a doeddwn i ddim eisiau gwneud hynny, yn sicr! Ond wedyn, dyma Geraint yn fy atgoffa fy mod yn dal i allu cerdded a gwneud llawer iawn o bethau. Peth arall wnaeth fy helpu i ddygymod oedd fy mod yn gweithio yn Ysgol Pendalar [ysgol arbennig yng Nghaernarfon] pan ddechreuodd fy ngolwg ddirywio. Roedd rhai o'r plant yn methu siarad na cherdded, ond dyna lle roedd gwên fawr ar eu hwynebau. Ond adwaith digon naturiol llawer o bobl sy'n colli eu golwg ydi bod eisiau eu cau eu hunain yn y tŷ.

***G: Wrth gwrs, mae gennych chi Freya, eich ci tywys, felly mae'n siŵr eich bod yn cerdded llawer efo hi?***
Buddug: Yn hollol, mae'n rhaid i chi fynd â'r ci allan! Y peth gorau y gallwch ei wneud os ydych yn teimlo'n isel ydi mynd allan i gerdded. Mi ges i fy nghi tywys cyntaf, Ivy, ddwy flynedd cyn i Geraint farw. Ac mae ffrindiau a theulu wedi fy helpu mewn llawer o ffyrdd. Ffrindiau da sy'n eich dallt chi, dyna sydd ar rywun ei eisiau! Efo fy ffrind Margaret, dwi wedi bod i Rwsia a Phatagonia.

***G: Beth arall fyddwch chi'n ei wneud o ddydd i ddydd, Buddug?***
Buddug: Dringo, dawnsio, mynd i *Taro i Mewn* sef pan fydd pobl o wahanol gapeli yn cael sgwrs yn ystod yr wythnos. Roedd y ffaith fod Geraint wedi marw yn 60 oed wedi gwneud imi sylweddoli fod yn rhaid inni wneud yn fawr o'r amser sydd gennym a byw bywyd yn llawn.

***G: Mae'n siŵr bod tasgau cyffredin bywyd yn gallu bod yn anodd weithiau?***
Mae technoleg yn gallu gwneud bywyd yn llawer haws. Mae'n bosib gwrando ar lyfr ar dâp. Mae gen i declyn sy'n recordio llais ar gyfer cadw prydau yn y rhewgell: mae pob pryd wedi'i labelu yn llafar – pa wres i'w goginio, am faint y mae i fod yn y popty. Er hynny, dwi'n cael syrpreis ambell dro! Mi fydda i'n trio cadw pethau yn yr un lle o hyd yn y gegin, ond wedi i fy ŵyr fod yma cefais fy hun yn cael picl ar dost yn lle marmalêd! Jyst gobeithio na fydd fy mwyd i a bwyd y ci yn cael eu cymysgu...

***G: Ac rydych chi'n brysur efo Cymdeithas y Deillion yng Ngogledd Cymru hefyd?***
Buddug: Ydw, dwi'n aelod o Fwrdd Cymdeithas y Deillion. A dwi'n mynd i wahanol ysgolion i siarad efo'r plant. Maen nhw wrth eu boddau'n gweld Freya. Wrth gwrs, pan fydda i'n mynd i siarad â chymdeithasau, fedra i ddim sgwennu nodiadau i'm helpu i gofio beth i'w ddweud nesa. A fedra i yn fy myw ddim cofio ystadegau am faint o filoedd o bunnau y mae'n ei gostio i hyfforddi ci tywys a phethau felly! Ond wedi'r cyfan, profiad personol pobl sydd o fwyaf o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o wrandawyr.

***G: Ac mae'r ci tywys yn dod efo chi i'r capel?***
Buddug: O, ydi. *Retriever* ydi Freya ac mae hi'n hoffi gorwedd yn ei hyd, felly mae angen sedd efo tipyn o le yn y capel. Mae'r capel yn bwysig iawn i mi. Dwi'n cael pleser o wrando ar y canu.

***G: Diolch am siarad efo'r Gwyliedydd, Buddug. Rydym wedi mwynhau eich cwmni.***

## Y GWANWYN YN DOD I ABERDYFI



Cyn bo hir bydd capel Bethel, Aberdyfi, yn agor ei ddrysau i groesawu pawb sy'n dymuno galw i mewn a mwynhau cwmni, paned a lluniaeth. Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol yn awr rhwng y Pasg a diwedd mis Hydref, **ar yr ail a'r pedwerydd dydd Iau ym mhob mis, o ddeg o'r gloch y bore tan hanner dydd**. Mae'n gyfle i ymlacio a chael sgwrs gyfeillgar neu fwynhau tawelwch yng nghanol prysurdeb tref lan môr boblogaidd. Lle delfrydol i alw i mewn am seibiant os byddwch yn teithio ar hyd yr arfordir. Dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod wrthi'n adnewyddu'r capel a gobeithiwn gwblhau'r gwaith o beintio tu allan yr adeilad cyn y Pasg. **Bob dydd Sul cynhelir gwasanaeth am ddau o'r gloch ac ar nos Fawrth am 7.30pm mae gennym gyfarfod gweddi gydag astudiaeth Feiblaidd**. Croeso cynnes i bawb.

# Y SLEEP OVER MAWR



*Trafod ein ffydd*

Daeth deunaw o bobl ifanc ynghyd i wersylla dros nos yn Ebeneser, Caernarfon, ddechrau Chwefror fel rhan o'r Sleep Over Mawr, cynllun cyfundebol i gynnal gweithgaredd lleol ar gyfer pobl ifanc. Roedd y criw yn cynnwys pobl ifanc o Wrecsam, Bwcle, Porthaethwy a Chwilog, ynghyd ag arweinyddion ifanc o Gylchdaith Bwcle. Braint hefyd oedd cael cwmni Megan Thomas, Llywydd Ieuenctid yr Eglwys.

Cafwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau ddydd Sadwrn gan gynnwys taith dywys o amgylch Caernarfon, sesiynau gemau, a sesiwn ar wyrthiau. Arweiniodd Megan sesiwn ar le pobl ifanc yn yr eglwys a phynciau ar gyfer cynhadledd plant ac ieuenctid 3Generate a gynhelir yn Nhachwedd ac fe lwyddwyd i gynnal trafodaeth tair ffordd dros y we gyda'r ddau grŵp arall oedd yn cynnal y SleepOver Mawr yng Nghymru, y naill yn Llanelli a'r llall yng Nghaerdydd. Cafwyd hefyd sesiwn gwneud bathodynnau dan arweiniad Angela Roe ac epilog dan arweiniad Trish, Abby a Vikki ac yna ffilm cyn noswylio.

Fore Sul, braf oedd cael ymuno â chynulleidfa Ebeneser mewn gwasanaeth dwyieithog dan arweiniad y Diacon Stephen Roe gyda'r bobl ifanc yn cymryd rhan ac yna cael sgwrsio a dod i adnabod ein gilydd yn well dros baned wedi'r oedfa.

Diolch i bawb a fu'n helpu i wneud y penwythnos yn bosibl, i aelodau Capel Ebeneser am eu croeso cynnes ac i'r rhai fu'n paratoi'r prydau bwyd neu'n arwain sesiynau. Cafwyd llawer o hwyl a chyfle i ddatblygu cyfeillgarwch a, coeliwch neu beidio, cawsom rywfaint o gwsg!

*Delyth Wyn Davies*



*Cael croeso mawr yn Ebeneser*




*Gweld Caernarfon gyda Mr Bobby Haines*



*Oedfa'r bore*

## Dydd Gŵyl Dewi yn Nyffryn Ogwen



# Tudalen y Plant

Ar fore'r Pasg, mae pobl a phlant yn hapus iawn. Mae'n amser arbennig iawn. Mae'r nefoedd a'r ddaear yn llawenhau. Cawn ni ymuno â'r Eglwys drwy'r holl fyd i ddweud:



## Halelwia! Atgyfododd Crist!
## Yn wir atgyfododd.

Mae pob un o'r pedair Efengyl yn y Testament Newydd yn dweud wrthym ni am beth ddigwyddodd ar y bore hwnnw. A gallwn ddarllen hanes am atgyfodiad Iesu yn llyfr Actau'r Apostolion hefyd. Dyma beth mae'n ei ddweud yno:



**Am bron chwe wythnos ar ôl iddo gael ei groeshoelio dangosodd ei hun iddyn nhw dro ar ôl tro, a phrofi y tu hwnt i bob amheuaeth ei fod yn fyw. Roedd yn siarad â nhw am beth mae teyrnasiad Duw yn ei olygu.**

Actau 1:3 (Beibl.net)

Dyma weddi ar gyfer y Pasg:

**Iesu Grist, ein Harglwydd, daethost ti o'r bedd yn fyw. Gwna ni'n ymwybodol o'th bresenoldeb di dy hun gyda ni. Diolchwn i ti dy fod yn rhoi bywyd newydd i bawb. Gad i ni rannu llawenydd y Pasg â'r holl greadigaeth. Dysg ni i ofalu am ein gilydd, am bob creadur byw ac am ein planed. Moliannwn dy enw gogoneddus. Amen.**

Tybed allwch chi gael hyd i'r ffordd drwy'r ddrysfa at y Bedd Gwag?

